Rhys Roberts
Ysgol Corn Hir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7JB

21/07/2025

Annwyl Rhys Roberts

**Ymweliad Interim:** Gorffennaf 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Corn Hir i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag un o'r argymhellion o'r arolygiad craidd mwyaf diweddar (Mai 2022), yn ogystal ag un o flaenoriaethau cyfredol yr ysgol. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hynny.

## Ffocws yr ymweliad

### Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud penderfyniadau annibynnol am eu dysgu

- Mae arweinwyr wedi gweithredu'n ofalus ac yn fwriadol wrth graffu ar eu dulliau cynllunio ac addysgu er mwyn darparu cyfleodd cyson i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau'n gynyddol annibynnol.
- Mae arweinwyr wedi sicrhau bod dysgu proffesiynol perthnasol a buddiol i staff yn cyfrannu at rannu a chysoni arferion effeithiol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae staff yn cydweithio'n llwyddiannus i ddatblygu annibyniaeth disgyblion ar draws yr ysgol.
- Dros gyfnod, mae athrawon wedi treialu gweithgareddau amrywiol i gefnogi disgyblion i wneud penderfyniadau am eu dysgu. Maent yn gwerthuso effaith y gweithdrefnau hyn ar ddatblygiad medrau'r disgyblion yn effeithiol.

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu drwy gynnig syniadau i'w cynnwys yn y themâu tymhorol. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fwriadus i gynllunio profiadau dysgu sy'n cymell ac yn ennyn diddordeb y disgyblion yn lwyddiannus, ac yn eu hannog i wneud penderfyniadau annibynnol am eu dysgu.
- Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o waliau weithio ynghyd ag ystod o ddulliau buddiol i'w cefnogi i gwblhau tasgau ble maent yn perchnogi eu dysgu yn well.
- Mae staff y disgyblion ieuengaf yn eu hannog i weithio'n drefnus heb gymorth oedolyn ac i wneud penderfyniadau dilys am eu dysgu.
- Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn dechrau magu hyder i wneud penderfyniadau yn gynyddol annibynnol am sut i gyflawni a chyflwyno eu gwaith.

## Gwella medrau darllen disgyblion

- Mae ethos yr ysgol ar gyfer datblygu darpariaeth a medrau darllen yn gadarn.
- Mae gan arweinwyr weledigaeth a dealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu wrth wella'r ddarpariaeth darllen ar gyfer disgyblion. Maent yn adnabod grwpiau o ddisgyblion sydd angen cefnogaeth yn amserol ac, ar y cyd â staff, yn trefnu rhaglenni cymorth sy'n diwallu eu anghenion yn briodol.
- Mae staff yn sefydlu perthynas weithio fuddiol gyda disgyblion ac maent yn adnabod eu hanghenion yn dda. Maent yn cydweithio'n fwriadus i ddarparu ystod o weithgareddau gwerthfawr, sydd, yn ei dro, yn datblygu medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda.
- Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda, ac yn cynnig cyfleoedd cyfoethog iddynt gymhwyso eu medrau darllen ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus.
- Mae arweinwyr yn sicrhau fod disgyblion yn ymgymryd â rolau arwain gwerthfawr. Maent yn hybu a chefnogi eu cyfoedion i ymarfer eu medrau darllen yn rheolaidd. Er enghraifft, mae'r 'Grŵp Effaith' wedi ail drefnu'r llyfrgell a chydlynu'r trefniadau ar gyfer archebu llyfrau newydd sy'n briodol i anghenion y dosbarthiadau unigol.
- Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda rhieni ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol yn rhannu disgwyliadau am ddysgu'r disgyblion gyda darpar rieni cyn i'w plant gychwyn yn y dosbarth Meithrin. Yn ogystal, maent yn rhannu testunau darllen digidol gyda rhieni er mwyn iddynt gefnogi eu plant adref.

Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6602226

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol